
PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL DYDD IAU, 11 EBRILL 2019

YN BRESENNOL: Peter Read (Cadeirydd)
Elfed Williams (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Steve Collings, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Gareth Williams a Angela Russell

SWYDDOGION: Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu) a Gwenan Mai Roberts (Public Protection Manager - Environment)

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Eryl Jones-Williams, Sïon Jones a Jason Wayne Parry

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 o Ragfyr 2019 fel rhai cywir.

5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 20.12.2018 a 28.01.2019

6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnig gan y diwydiant tacsï i adolygu'r uchaf bris y gall ei godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir. Amlygwyd ei bod yn ofynnol i unrhyw gais am newid i'r uchaf bris gael ei gyflwyno gan y diwydiant a chadarnhawyd bod cais diweddar i adolygu'r prisiau, wedi ei gyflwyno gan Mr J Pritchard, perchennog cwmni tacsï lleol. Ategwyd nad oedd cais i adolygu'r uchaf bris wedi ei dderbyn ers 2011 a phwysleisiwyd nad oedd yr uchaf bris yn berthnasol i deithiau mewn

cerbydau hurio preifat.

Cyfeiriwyd at dabl yn yr adroddiad oedd yn cymharu prisiau cyfatebol am daith 2 filltir. Nodwyd bod y cynnydd arfaethedig wedi ei gyfrifo drwy ychwanegu chwyddiant ar gyfartaledd o 2.6% y flwyddyn at bris taith y filltir a bennwyd yn 2011. Awgrymwyd, o fewn y diwydiant mai prisiau'r teithiau sydd yn gyrru'r gystadleuaeth a mynegwyd mai annhebygol fyddai i bob cwmni godi eu prisiau.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwynion prisiau cerbydau tacsï hacni, nodwyd mai ychydig iawn o gwynion sydd wedi ei derbyn gan y cyhoedd ac y byddai cwynion yn fwy tebygol o gael eu cyflwyno gan y diwydiant ei hun.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a thystiolaeth i gefnogi'r datganiad nad oes cynnydd wedi bod mewn costau tanwydd, nodwyd bod graffiau cyfartaledd prisiau tanwydd ar draws y wlad gan yr RAC a'r AA ddim yn ymddangos llawer gwahanol ers 2011.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau unigol:

- Bod y pris arfaethedig yn deg o gymharu, ar gyfartaledd, prisiau Siroedd eraill ar draws y Gogledd
- Bod yr Uned Trwyddedu yn ymateb i gais gan y diwydiant i adolygu'r prisiau
- Nad oes rheidrwydd i gwmnïau godi eu prisiau – uchafswm sydd yn cael ei osod
- Bod ffioedd wedi codi ac felly derbyniol fyddai rhoi ystyriaeth deg i'r cynnig gan gwmni lleol i adolygu'r prisiau

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchaf bris fel bod modd i'r diwydiant tacsï godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir.

7. CYFLWYNO CYLCH GORCHWYL AR GYFER YSTYRIED CYNNWYS POLISI TRWYDDEDU TACSIS UNEDIG DRAFT

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Adran yr Amgylchedd yn gwneud cais i'r Pwyllgor sefydlu grŵp tasg a gorffen o blith aelodau'r Pwyllgor i ystyried cynnwys y polisi trwyddedu unedig drafft cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus. Atgoffwyd yr aelodau o benderfyniad y Pwyllgor (11.09.19) i gymeradwyo cyfeiriad cyffredinol prif gynigion ar gyfer adolygu'r polisïau presennol mewn perthynas â thrwyddedu tacsï a chreu Polisi Trwyddedu Tacsï Unedig newydd yn dilyn cynnydd yn y nifer o geisiadau i drwyddedu cerbydau yn groes i'r polisi ac yn sgil y Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

Amlygwyd mai ystyried y polisi drafft fyddai prif nôd y grŵp tasg a gorffen. Bydd gofyn i'r grŵp gyflwyno eu sylwadau / argymhellion i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a'r bwriad i gyflwyno'r angen i ymgeisydd am drwydded gyflwyno tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, nodwyd nad oedd gofyn cyfreithiol ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, ond yn dilyn trafodaethau gyda'r Uned Cludiant,

awgrymwyd yr angen i gael polisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus yn ei le. Cefnogwyd y bwriad a phwysleisiwyd yr angen i'r ddogfen fod ar gael yn y cerbyd. Awgrymwyd y byddai'r cwmni yswiriant yn dymuno hyn hefyd.

Sylw yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau unigol:

- Mai doeth fyddai ystyried cynrychiolwyr o Arfon, Dwyfor a Meirionnydd

PENDEFYNWYD enwebu y Cynghorywr Annwen Hughes, Angela Russell, Peter Read, Elfed Williams ac Edgar Owen fel cynrychiolwyr i gymryd rhan yn y Grwp Tasg a Gorffen gyda'r Cynghorydd Eryl Jones Williams fel aelod wrth gefn.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.35 y.b.

CADEIRYDD